ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Addysg, Cymru (2019, Rhif 21)



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 247/2019
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 015/2011

# Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

**Cynulleidfa**

Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; undebau athrawon ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol; NACAB Cymru; sefydliadau cydraddoldeb ac anabledd; cyrff lleol a chenedlaethol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ar faterion sy'n ymwneud â datblygu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, eu rhoi ar waith neu eu newid. Mae'n disodli'r canllawiau anstatudol sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ystyried y canllawiau statudol hyn wrth roi polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ar waith, neu eu newid.

**Rhagor o wybodaeth**

Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg:
Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: schoolfundingmailbox@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38292 ISBN digidol 978 1 83876 670 2

# Cynnwys


**Crynodeb** **2**

Newidiadau i'r canllawiau blaenorol 2

**Adran 1: Cyflwyniad** **3**

Statws y canllawiau 3

Cyd-destun cyfreithiol 3

Y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg 4

Deddfwriaeth cydraddoldeb 4

Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion 5

**Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrff llywodraethu ysgolion** **6**

Erthygl 2 6

Erthygl 12 6

Erthygl 13 6

Gwahaniaethu ar sail hil neu gred grefyddol 7

Gwahaniaethu ar sail anabledd 7

Gwahaniaethu ar sail rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd 7

**Adran 3: Materion i'w hystyried wrth ddatblygu, mabwysiadu, newid neu werthuso polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion** **9**

Cost a fforddiadwyedd gwisg ysgol 9

Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion 10

Cotiau 10

Teithio rhwng y cartref a'r ysgol 11

Addysg gorfforol 11

Iechyd a diogelwch 11

Gemwaith, gwallt a cholur 11

Materion meddygol 12

Amodau tywydd eithafol 12

**Adran 4: Gwybodaeth, ymgynghori a chwynion** **13**

Prosbectysau ysgolion 13

Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill 13

Cwynion 13

Peidio â chydymffurfio â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion 14

Gwahardd ac absenoldeb 14

**Adran 5: Cymorth ariannol** **16**

Grant Datblygu Ysgolion – Mynediad 16

Cymorth grant Awdurdodau Lleol 16

Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol fel rhieni corfforaethol 17

Mathau eraill o gymorth ar gyfer teuluoedd incwm isel 17

Undebau Credyd 17

Arferion da gan ysgolion 17

# Crynodeb

Anelir y canllawiau statudol hyn at gyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid i'w helpu i ddatblygu, mabwysiadu, adolygu a gwerthuso polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Rhaid i ysgolion ystyried y canllawiau hyn wrth ystyried eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae’r canllawiau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau y rhoddir sylw teilwng i ofalu bod disgyblion o wahanol ryw a rhywedd, disgyblion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol, a disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- cost a fforddiadwyedd;
- ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflwyno polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a'u newid;
- ymgynghori â rhieni, disgyblion a’r gymuned .

## Newidiadau i'r canllawiau blaenorol

- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd eitemau gwisg ysgol, y gallu i gael gafael arnynt a'u hargaeledd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Ni ddylai polisïau gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng eitemau gwahanol o ddillad ar sail rhyw/rhywedd.
- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod yn synhwyrol ac yn hyblyg wrth ymdrin ag eitemau gwisg ysgol er mwyn ystyried amodau tywydd eithafol.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran rhoi cymorth ariannol i rieni tuag at gost prynu gwisg ysgol:

- Nid yw'r Grant Gwisg Ysgol Cymru Gyfan ar gael mwyach fel grant ers mis Ebrill 2018.
- Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, sef elfen newydd o'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n disodli'r grant gwisg ysgol, ym mis Medi 2018.
- Gall hawlwyr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd wneud cais am Flaenswm Cyllidebu.

# Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar bob corff llywodraethu i gael polisi gwisg ysgol ar ôl ymgynghori â rhieni, disgyblion a chymunedau lleol neu gymunedau ffydd perthnasol. O'i ddatblygu'n iawn a'i weithredu'n briodol, gall gwisg ysgol:

- greu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniant yn yr ysgol;
- cefnogi ymddygiad cadarnhaol a disgyblaeth yn yr ysgol;
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu;
- dileu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad o ffasiwn benodol;
- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu'r un hunaniaeth sy'n cynnwys eu gofynion penodol;
- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a helpu i leihau rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio;
- bod o fudd o ran polisïau diogelu a phresenoldeb drwy helpu i nodi triwantiaid;
- helpu i nodi dieithriaid ar safle'r ysgol;
- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

## Statws y canllawiau

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn statudol ac felly rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu eu hystyried wrth lunio ac adolygu eu polisïau gwisg ysgol.

1.3 Mae'r canllawiau anstatudol blaenorol, sef "Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 (Cylchlythyr 006/2008), wedi'u dirymu.

## Cyd-destun cyfreithiol

1.4 Nid oes deddfwriaeth addysg sy'n ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol nac agweddau eraill ar edrychiad unigolion megis lliw a steil gwallt a gwisgo gemwaith a cholur. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldeb am y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg, gall corff llywodraethu bennu gwisg ysgol y mae'n ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo a rheolau eraill yn ymwneud â'u hedrychiad. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi'r canllawiau statudol hyn yn y maes hwn i'w gweld mewn nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol.

1.5 Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gyrff llywodraethu wedi'i gynnwys yn adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ("Deddf 2006"). Er nad yw'r adran hon yn sôn am wisg ysgol yn benodol, mae'n ddigon eang i'w chynnwys. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu i sicrhau y caiff polisïau y bwriedir iddynt hyrwyddo disgyblaeth ac ymddygiad da eu rhoi ar waith yn yr ysgol.

1.6 Yn ogystal â hynny, mae adran 89 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar benaethiaid i bennu mesurau (gan gynnwys rheolau a darpariaethau i'w gorfodi) i'w rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo disgyblaeth ymhlith y disgyblion, eu hannog i barchu awdurdod, a'u hannog i ymddwyn yn dda a pharchu eraill. Dylai unrhyw fesur a gyflwynir gan y pennaeth o dan adran 89 gael ei gyhoeddi ganddo ar ffurf dogfen ysgrifenedig. Dylai'r ddogfen ysgrifenedig fod yn hysbys i bawb yn yr ysgol ac i rieni. Mae hefyd yn ofynnol, unwaith ym mhob

blwyddyn ysgol, i'r pennaeth gymryd camau i sicrhau y caiff ei ddwyn at sylw'r disgyblion, eu rhieni a phawb arall a gyflogir gan yr ysgol neu sy'n gweithio yn yr ysgol mewn ffordd arall.

1.7 Wrth lunio mesurau a wneir o dan adran 89 o Ddeddf 2006, a'u rhoi ar waith, dylai pennaeth gynnwys mesurau i atal pob ffurf ar fwlio. Felly, dylai corff llywodraeth sicrhau na fydd llunio, newid na rhoi polisi gwisg ysgol nac edrychiad disgyblion ar waith yn creu sefyllfa a fydd yn arwain at fwlio. Dylai'r ysgol ystyried canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_mi.pdf

1.8 Hefyd, o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"), rhaid i gorff llywodraethu wneud trefniadau i sicrhau bod ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg yn cael eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yr ysgol. Felly, pan fydd corff llywodraethu yn ystyried cyflwyno polisi gwisg ysgol, dylai ystyried y ddyletswydd gyffredinol hon i wneud hynny mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles y disgyblion. O dan yr adran hon, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i roi canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol.

## Y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg

1.9 Mae Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002 yn pennu mai cyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol yw'r ffordd y caiff ysgol a gynhelir ei rhedeg. Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Fel y nodir uchod, mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles disgyblion yr ysgol.

1.10 Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000, a wnaed o dan adran 38 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyflawni eu cyfrifoldebau er mwyn gwneud y canlynol:

a) dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, rhyw a rhywedd;

b) hyrwyddo cyfle cyfartal a chydberthnasau da rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol a grwpiau rhyw/rhywedd.

## Deddfwriaeth cydraddoldeb

1.11 Mae nifer o ddarpariaethau statudol wedi'u cynnwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
Gall y darpariaethau hynny effeithio ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a bydd angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid eu hystyried er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred nac anabledd.

1.12 Mae'r dyletswyddau a osodir ar gyrff llywodraethu yn sgil y Rheoliadau hyn yn cynnwys asesu a monitro effaith eu polisïau, er enghraifft eu polisi gwisg ysgol, ar ddisgyblion, staff a rhieni sy'n perthyn i grwpiau hil gwahanol, gan gynnwys yr effaith ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion hynny.

1.13 Mae cyngor a chanllawiau ar gael gan y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru. Mae'r comisiwn wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau defnyddiol, gan gynnwys https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/what_equality_law_means_for_you_as_an_education_provider_schools_welsh_t_0.pdf

## Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion

1.14 Mae polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*, mae Llywodraeth Cymru yn pennu saith nod sylfaenol ac yn nodi bod gan bob person ifanc yng Nghymru yr hawl i gael ei gynnwys mewn proses ymgynghori, i fod yn rhan o benderfyniadau, ac i leisio ei farn am faterion sy'n ymwneud ag ef neu sy'n effeithio ar ei fywyd. https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/151106-core-aims-comprehensive-version-cy.pdf

1.15 Dylid ymgynghori â disgyblion, a dylent allu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt. Er mwyn cefnogi disgyblion ac ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gynradd (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion babanod), ysgol uwchradd ac ysgol arbennig a gynhelir yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol. Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 42/2006: *Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol*, yn cynghori y gallai gwisg ysgol fod yn un o'r materion y dylid gofyn i gyngor ysgol ei ystyried yn ei gyfarfodydd, ac mewn ymgynghoriad â disgyblion yr ysgol. https://gweddill.gov.wales/pubs/circulars/2006/welsh/nafwc42-06-w?lang=cy

## Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrff llywodraethu ysgolion

2.1 Wrth lunio polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, rhaid i gorff llywodraethu ysgol ystyried ei rwymedigaethau i beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, ailbennu rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; anabledd.

2.2 Bydd cyrff llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau o ran costau a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am le mewn ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.

2.3 Y pwynt hanfodol yw y bydd cyrff llywodraethu yn gweithredu'n deg ac yn rhesymol wrth ddatblygu neu adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth wrthwahaniaethol arall. http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

Bydd cyrff llywodraethu hefyd yn cadw at egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a nodir isod (mae Erthyglau 2, 12 a 13 yn arbennig o berthnasol i'r canllawiau hyn):

**Erthygl 2**

*1. Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau barchu'r hawliau sydd wedi eu nodi yn y Confensiwn presennol a'u sicrhau i bob plentyn o fewn eu hawdurdodaeth heb gamwahaniaethu o unrhyw fath, ni waeth beth fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, genedigaeth neu statws arall y plentyn neu ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol.*
*2. Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau gymryd pob mesur priodol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag pob ffurf ar gamwahaniaethu neu gosbi ar sail statws, gweithgareddau, barnau datganedig, neu gredoau rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, neu aelodau teulu'r plentyn.*

**Erthygl 12**

1. *Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd.*
2. *At y diben hwn, rhaid rhoi cyfle i'r plentyn yn benodol i gael gwrandawiad mewn unrhyw weithdrefn farnwrol a gweinyddol sy'n effeithio arno, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol y gyfraith genedlaethol.*

**Erthygl 13**

1. *Bydd gan y plentyn hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i geisio, cael a rhoi gwybodaeth a syniadau o bob math, ni waeth beth fo'r ffiniau, naill ai ar lafar, mewn ysgrifen neu mewn print, ar ffurf celfyddyd, neu drwy unrhyw gyfrwng arall a ddewisir gan y plentyn.*

2. *Caiff y dull o arfer yr hawl hon fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, ond ni fydd y rhain ond y rhai a ddarperir drwy'r gyfraith ac sy'n angenrheidiol:*

   a) *I barchu hawliau neu enwau da personau eraill; neu*

   b) *I warchod diogeledd gwladol neu drefn gyhoeddus (ordre public), neu iechyd neu foesau cyhoeddus.*

## Gwahaniaethu ar sail hil neu gred grefyddol

2.4 Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yng nghyd-destun eu polisi cydraddoldeb hiliol; eu rhwymedigaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng disgyblion o wahanol grwpiau hil; a'r gofyniad i asesu effaith polisïau'r ysgol ar ddisgyblion o wahanol grwpiau hil. Gellir ystyried bod corff llywodraethu yn gwahaniaethu os na fydd yn ystyried anghenion crefyddol mewn perthynas â gwisg. Gall hyn naill ai gael ei ystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil yn nhermau Deddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft am fod carfan uchel o ddilynwyr ffydd benodol yn perthyn i un neu fwy o grwpiau hil lleiafrifol ac yn methu â chydymffurfio â gofyniad penodol o ran y wisg ysgol), neu ei ystyried yn achos o dorri'r hawliau a ddiogelir o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

2.5 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn diogelu'r hawl i ‘amlygu ymlyniad wrth grefydd neu gred’. Felly, mae'n bwysig bod corff llywodraethu yn ystyried sut y gallai polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion dorri hawliau'r unigolyn i ddilyn arfer cydnabyddedig yn ei grefydd neu gred. Bydd cyrff llywodraethu yn gwneud ymdrech resymol i addasu i ofynion o'r fath a dylai ystyried unrhyw gais i amrywio ei bolisi er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol o ran eu crefydd neu gred.

2.6 Mae'n bosibl ei fod yn arfer crefyddol cydnabyddedig i ddisgybl wisgo dilledyn penodol. Wrth gydnabod hyn, gallai’r corff llywodraethu benderfynu y gallai'r disgybl wisgo’r dilledyn yn lliwiau’r wisg ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu fodloni'r gofynion statudol perthnasol wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

## Gwahaniaethu ar sail anabledd

2.7 Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau nad yw polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn rhoi disgyblion anabl o dan anfantais o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys ymarferoldeb polisïau ac a ellir gwneud addasiadau rhesymol er mwyn bodloni gofynion disgyblion anabl.

## Gwahaniaethu ar sail rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd

2.8 Bydd corff llywodraethu yn nodi'r hyn sy'n rhan o'i wisg ysgol ac yn sicrhau bod ganddo bolisi gwisg ysgol cynhwysol nad yw'n gwahaniaethu ar sail rhyw na hunaniaeth o ran rhywedd. Gall polisi gwisg ysgol sy'n niwtral o ran rhywedd restru eitemau o ddillad y caniateir iddynt gael eu gwisgo yn yr ysgol, heb nodi unrhyw ofynion o ran yr angen i eitemau o ddillad gael eu gwisgo gan fyfyrwyr o rywedd penodol yn unig.

2.9 Os oes unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau yn y polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, dylid eu cyfiawnhau a'u nodi'n glir yn y polisi. Un sail bosibl dros gyfiawnhau gwahaniaethau o'r fath fyddai bod crefydd benodol yn pennu cod dillad a chod edrychiad gwahanol ar gyfer y ddau ryw. Gallai peidio â pharchu codau o'r fath arwain at wahaniaethu ar sail hil neu dorri hawliau dynol. Er enghraifft, os nad yw'r gwahaniaethau yn y gofynion o

ran gwisg yn cael effeithiau llawer mwy andwyol ar un rhyw/rhywedd na'r llall, mae'n annhebygol y cânt eu hystyried yn wahaniaethol, ond gallai fod yn anghyfreithlon, er enghraifft, petai gwisg ysgol y merched yn llawer drutach na gwisg ysgol y bechgyn.

2.10 Mae angen i ysgolion ystyried a oes angen hyblygrwydd mewn perthynas â gwisg ysgol er mwyn diwallu anghenion disgybl sy'n mynd drwy broses ailbennu rhywedd ar hyn o bryd. Gall gwrthod caniatáu i ddisgybl wisgo gwisg ysgol sy'n adlewyrchu ei hunaniaeth o ran rhywedd fod yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

2.11 Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2011 yn ymwneud yn benodol â gwisg ysgol nac agweddau eraill ar edrychiad disgyblion, ond mae'r gofyniad cyffredinol i beidio â gwahaniaethu wrth ymdrin â disgyblion yr un mor berthnasol yma ag y mae i agweddau eraill ar bolisi'r ysgol.

# Adran 3: Materion i’w hystyried wrth ddatblygu, mabwysiadu, newid neu werthuso polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

## Cost a fforddiadwyedd gwisg ysgol

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall prynu gwisg ysgol ac eitemau eraill yn unol â pholisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol, yn arbennig i'r rheini o deuluoedd incwm isel a theuluoedd mawr. O ganlyniad, wrth gyflwyno gwisg ysgol newydd neu ystyried newid gofynion y wisg ysgol, bydd cyrff llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau'n ymwneud â chost a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am le mewn ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.

3.2 Dylai cyrff llywodraethu ystyried y canlynol er mwyn ceisio cadw cost gwisg ysgol yn isel:

- Pennu eitemau a lliwiau sylfaenol yn unig ac nid steil, fel y gellir prynu eitemau mewn siopau manwerthu amrywiol am bris rhesymol ac nid gan un cyflenwr awdurdodedig yn unig.
- Osgoi eitemau cost uchel megis blasers a chapiau.
- Gall ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion wisgo crysau polo, siwmperi, blasers a gwisg addysg gorfforol â logo'r ysgol arnynt, y gellir eu prynu gan gyflenwyr arbenigol, fod yn gostus. Dylai ysgolion ystyried pa mor angenrheidiol yw eitemau o'r fath, gan gydbwyso’r dymuniad i gael hunaniaeth benodol â’r dymuniad i sicrhau bod eitemau gwisg ysgol ar gael yn hawdd ac yn fforddiadwy. Os bydd corff llywodraethu yn pennu bod yn rhaid cael logo ar y wisg ysgol, dylai ysgolion gyfyngu'r logo i un eitem (sydd ar gael yn hawdd ac am bris rhesymol) a gaiff ei gwisgo'n aml, e.e. crys chwys neu gardigan.
- Os bydd ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion wisgo ail ddilledyn â logo'r ysgol arno (e.e. siwmper neu drowsus), dylai ystyried darparu'r ail logo am ddim fel bathodyn y gellir ei smwddio ar ddillad neu ei wnïo ar yr eitem.
- Dylid ystyried y posibilrwydd o brynu logos i'w gwnïo, eu smwddio neu eu glynu wrth ddillad er mwyn lleihau costau pan fydd corff llywodraethu yn penderfynu bod logos yn rhan angenrheidiol o'r wisg ysgol.
- Dylid osgoi amrywio'r lliw a'r steil ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol am fod hyn yn ddrud i rieni ac yn golygu na ellir gwerthu'r dillad yn ail-law na'u rhoi i frodyr neu chwiorydd.
- Dewis eitemau y gellir eu golchi'n hawdd: dylid osgoi eitemau i'w sychlanhau yn unig.
- Cyfyngu ar ba mor aml y caiff y wisg ysgol ei newid oherwydd gall hyn fod yn gostus i rieni ac mae'n cyfyngu ar eu gallu i werthu'r dillad yn ail-law neu eu rhoi i frodyr neu chwiorydd.
- Ystyried cost ac argaeledd meintiau nad ydynt yn rhai safonol.
- Os caiff y polisi gwisg ysgol ei newid, dylid cyflwyno cyfnod pontio fel y gellir gwisgo'r hen wisg ysgol am o leiaf flwyddyn cyn newid yn llwyr i'r wisg ysgol newydd, ac ystyried a ellir cadw eitemau o'r hen wisg ysgol yn y polisi newydd.

- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried a oes angen gwisg ysgol wahanol ar gyfer yr haf a'r gaeaf. Dylai gwisg ysgol fod mor ddarbodus â phosibl a dim ond am fater o wythnosau y caiff gwisg ysgol ar gyfer yr haf ei gwisgo. Er enghraifft, gallai cyrff llywodraethu ystyried trowsus i'r myfyrwyr yn y gaeaf neu yn ystod cyfnodau o dywydd oer iawn, trowsus byr yn yr haf neu yn ystod cyfnodau o dywydd poeth; a chaniatáu i'r myfyrwyr beidio â gwisgo teits gwlanog yn ystod cyfnodau o dywydd poeth.

- Anogir ysgolion uwchradd i ystyried dichonoldeb cysoni eu polisi gwisg ysgol â pholisïau'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo er mwyn galluogi'r disgyblion i barhau i ddefnyddio unrhyw eitemau gwisg ysgol craidd (e.e. crysau, crysau polo, trowsus, sgertiau du a chyfarpar chwaraeon) yn yr ysgol uwchradd a lleihau cost pontio i addysg uwchradd.

- Ystyried opsiynau eraill i wella fforddiadwyedd a'r gallu i gael gafael ar wisg ysgol megis cynlluniau cyfnewid neu ailddefnyddio gwisg ysgol lle y gall rhieni roi eitemau nad oes eu hangen mwyach neu ddillad sy'n rhy fach, sydd mewn cyflwr da, er mwyn eu cynnig i deuluoedd eraill.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyrff llywodraethu i ystyried pwysigrwydd argaeledd gwisg ysgol. Mae cael amrywiaeth eang o gyflenwyr gwisg ysgol yn mynd i'r afael â phroblemau i'r rhieni a'r gofalwyr hynny sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyflenwyr gwisg ysgol arbenigol ac sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.

3.4 Pan fydd trefniadau un cyflenwr ar waith ar gyfer rhai eitemau, dylai cyrff llywodraethu adolygu'r trefniadau hyn yn gyson yng nghyd-destun y canllawiau hyn a cheisio sicrhau bod yr eitemau'n fforddiadwy. Pan fydd eitem gwisg ysgol ar gael o un siop yn unig, mae'n debygol y bydd y prisiau'n uwch nag y byddent petai rhieni'n gallu eu prynu o ffynonellau eraill.

3.5 Pan fydd ysgolion yn parhau â threfniant un masnachwr, os oes elfen o gystadleuaeth am y farchnad ar ffurf tendr neu broses ddethol a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd, mae'n debygol y bydd hyn yn gostwng prisiau.

3.6 Dylai cyrff llywodraethu allu dangos eu bod wedi cael y gwerth gorau am arian gan gyflenwyr. Dylai unrhyw arbedion a negodwyd â'r cyflenwyr gael eu trosglwyddo i'r rhieni lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Ni ddylai ysgolion gynnig trefniadau arian yn ôl. Dylid osgoi contractau un cyflenwr yn unig oni bai bod cystadlaethau tendro rheolaidd yn cael eu cynnal lle y gall mwy nag un cyflenwr gystadlu am y contract.

## Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

### Cotiau

3.7 Dylai cyrff llywodraethu fod yn hyblyg o ran eu gofynion ynghylch cotiau i'w gwisgo rhwng y cartref a'r ysgol. Gall pennu lliw neu steil penodol olygu y bydd yn rhaid i rieni brynu dwy got ar gyfer eu plentyn: un i'r ysgol ac un i'w gwisgo ar adegau eraill.

**Teithio rhwng y cartref a'r ysgol**

3.8 Dylai cyrff llywodraethu annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol a dylent ystyried hyn wrth bennu cynllun a steil y wisg ysgol. Mae gwisg ysgol yn aml yn dywyll sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant gael eu gweld gan yrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Dylai cyrff llywodraethu ystyried manteision cynnwys lliwiau golau a/neu ddefnyddiau adlewyrchol neu welededd uchel, megis stribedi adlewyrchol y gellir eu tynnu ymaith fel rhan o'u polisi gwisg ysgol er mwyn sicrhau y gall plant gerdded a seiclo'n ddiogel i'r ysgol.

**Addysg gorfforol**

3.9 Dylai pob disgybl deimlo'n gyfforddus ynghylch ei ddillad Addysg Gorfforol. Dylai ysgolion ddewis gwisg addysg gorfforol sy'n ymarferol, yn gyfforddus, yn briodol i'r gweithgareddau dan sylw, ac yn fforddiadwy. Gall y dillad y mae'n ofynnol i ddisgyblion eu gwisgo gael effaith andwyol ar gyfranogiad disgyblion mewn gwersi Addysg Gorfforol. Dylai cyrff llywodraethu fod yn sensitif ac yn hyblyg gan ystyried y materion yn ymwneud â chydraddoldeb a amlinellir yn y canllawiau hyn. Bydd ysgolion yn ystyried cost dillad Addysg Gorfforol, yn enwedig lle mae angen cyfarpar arbenigol.

3.10 Dylai esgidiau Addysg Gorfforol fod yn addas, e.e. esgidiau rhedeg, at ddibenion iechyd a diogelwch. Dylai cyrff llywodraethu ystyried a ddylid caniatáu i unrhyw blentyn nad yw'n gwisgo'r esgidiau cywir gymryd rhan yn y wers Addysg Gorfforol os oes risg i ddiogelwch. Mewn achosion o'r fath, dylai cyrff llywodraethu ystyried caniatáu i'r disgyblion hyn gymryd rhan mewn ffordd arall, e.e. drwy weinyddu, cadw sgôr, ac ati, gan eu hatgoffa y dylid gwisgo dillad priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol yn y dyfodol**.**

**Iechyd a diogelwch**

3.11 Mae materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn hynod bwysig, ac mae angen eu hystyried yn barhaus, yn enwedig pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Wrth lunio neu addasu polisïau gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu gydbwyso dyheadau a hawliau disgyblion unigol â gofynion iechyd a diogelwch neu warchodaeth. Er enghraifft, mae gan gyrff llywodraethu yr hawl i ddisgwyl i ddisgyblion â gwallt hir neu sgarffiau pen eu clymu'n ôl er diogelwch ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol ac wrth weithio mewn labordai gwyddoniaeth neu weithdai technoleg, pan fyddai hynny fel arall yn peri risg i'r disgybl ei hun neu ddisgyblion eraill a'r hyn sydd o'u cwmpas.

**Gemwaith, gwallt a cholur**

3.12 Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu am ystyried gemwaith fel rhan o'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a phennu eitemau o emwaith y caniateir i ddisgyblion eu gwisgo. Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu hefyd am ystyried colur a steil/lliw gwallt fel rhan o'u polisïau. Wrth wneud hynny, dylid ystyried a allai'r polisi amharu ar hawl unigolyn i ddilyn yn rhesymol arfer cydnabyddedig sy'n rhan o'i grefydd neu gred ac a allai'r polisi arwain at wahaniaethu. Ceir hefyd faterion iechyd a diogelwch i'w hystyried. Er enghraifft, gall fod yn rhesymol i gorff llywodraethu wahardd disgyblion rhag gwisgo gemwaith os yw o'r farn bod hyn yn peri risg o gael anaf (e.e. mewn gwersi Addysg Gorfforol lle y dylid gofyn i ddisgyblion dynnu eu clustdlysau neu eu gorchuddio a thâp).

## Materion meddygol

3.13 Bydd angen i gyrff llywodraethu ystyried yn ofalus geisiadau i amrywio'r polisïau er mwyn diwallu anghenion disgyblion â chyflwr meddygol neu nam dros dro neu barhaol. Er enghraifft, efallai na fydd disgyblion â rhai cyflyrau ar y croen yn gallu gwisgo rhai ffabrigau, ac na fydd disgyblion ag anafiadau i'w troed neu eu coes yn gallu gwisgo esgidiau ysgol. Mae'n bosibl y bydd disgybl â nam penodol yn ystyried bod rhai eitemau penodol o'r wisg ysgol yn ei gyfyngu.

## Amodau tywydd eithafol

3.14 O ran fforddiadwyedd ac ymarferoldeb, rhaid i gyrff llywodraethu fod yn synhwyrol ac yn hyblyg wrth ymdrin â gofynion gwisg ysgol sylfaenol yn ystod cyfnodau o dywydd poeth neu oer iawn, fel llacio'r polisïau dros dro er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gyfforddus yn eu hamgylchedd dysgu. Er enghraifft, caniatáu i ddisgyblion wisgo eu gwisg addysg gorfforol neu drowsus byr yn ystod cyfnodau o dywydd poeth iawn neu ganiatáu iddynt wisgo trowsus yn lle sgert yn ystod cyfnodau o dywydd oer iawn.

3.15 Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod yn eglur ynghylch eu hyblygrwydd o ran eitemau gwisg ysgol ar gyfer amodau tywydd eithafol wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, gan gynnwys sut y caiff unrhyw newidiadau eu cyfathrebu.

# Adran 4: Gwybodaeth, ymgynghori a chwynion

## Prosbectysau ysgolion

4.1 Dylai'r gofynion ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gael eu cynnwys ym mhrosbectws yr ysgol. Dylai prosbectws yr ysgol gael ei ddiweddaru bob blwyddyn a dylid sicrhau ei fod ar gael i rieni pob disgybl presennol a darpar ddisgybl ar gais. Gellid hefyd gynnwys y polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ar wefan yr ysgol a'u rhannu â'r rhieni drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn electronig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o bolisïau’r ysgol ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion cyn penderfynu anfon ei blentyn i'r ysgol.

## Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill

4.2 Wrth ystyried cyflwyno polisïau newydd ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion neu newid y polisïau presennol, dylai cyrff llywodraethu ymgynghori â'r disgyblion a'r rhieni/gofalwyr presennol yn ogystal â darpar ddisgyblion a rhieni/gofalwyr, yn enwedig gan y gallai eu newid arwain at gostau ychwanegol. Dylai'r broses ymgynghori hefyd gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn y gymuned ehangach, gan sicrhau bod arweinwyr cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau crefyddol yn cael eu nodi yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu faterion yn ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd. Dylai cyrff llywodraethu gynnwys disgyblion a'r cyngor ysgol wrth ddatblygu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion drwy eu hannog i gymryd perchenogaeth dros y gwaith o lunio eu polisi gwisg ysgol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau hyn.

4.3 Dylai cyrff llywodraethu gofnodi'r broses ymgynghori a ddefnyddiwyd, y pwyntiau a wnaed gan yr ymatebwyr a'r penderfyniadau a wnaed wrth bwyso a mesur safbwyntiau croes. Byddai'n ddefnyddiol petai cyrff llywodraethu yn rhoi rhesymau i'r ymatebwyr dros y penderfyniadau a wnaed, yn enwedig os aethpwyd i'r afael â mater cynhennus yn ystod yr ymgynghoriad. Mewn achosion lle y caiff penderfyniad ei wneud ar sail barn y mwyafrif, dylai cyrff llywodraethu fod yn ofalus iawn er mwyn sicrhau nad yw barn y mwyafrif yn gwahaniaethu yn erbyn nodweddion gwarchodedig na grŵp penodol.

4.4 Anogir cyrff llywodraethu i adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion o bryd i'w gilydd (a dylent ystyried bob amser ystyried gwneud hynny pan gyflwynir sylwadau) ac i ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill er mwyn casglu eu barn. Dylai ysgolion roi digon o rybudd cyn cynnal ymgynghoriad am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a'i gyhoeddi'n eang er mwyn annog y nifer fwyaf o ymatebion. Os gwneir newidiadau i bolisïau gwisg ysgol o ganlyniad i'r ymgynghoriad, dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau pontio ar waith a neilltuo digon o amser ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol.

## Cwynion

4.5 Dylid cyflwyno cwynion neu bryderon am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, gan gynnwys cwynion a phryderon am argaeledd y wisg ysgol a chost ei phrynu gan gyflenwr penodol, i gorff llywodraethu'r ysgol, a ddylai ddelio â nhw yn unol â gweithdrefn gwyno'r corff llywodraethu. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu roi gweithdrefn ar waith ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau o'r staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill sy'n ymwneud â materion y mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb statudol amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar weithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gweithdrefnau-cwyno-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-yng-nghymru.pdf

Dylid cyhoeddi'r broses ar gyfer cwyno am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, er enghraifft, ar wefan yr ysgol neu mewn deunydd cyfathrebu penodol i rieni am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

## Peidio â chydymffurfio â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

4.6 Pan fydd y corff llywodraethu wedi cyflwyno polisi gwisg ysgol a/neu reolau ynghylch edrychiad, cyfrifoldeb y pennaeth fydd gorfodi'r rhain fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd a chynnal disgyblaeth.

4.7 Dylai penaethiaid benderfynu pa gamau i'w cymryd pan fydd disgyblion yn torri'r rheolau o ran gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion. Gall penaethiaid ddisgyblu disgyblion am dorri polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, ond cyn gwneud hynny, mae'n bwysig iawn eu bod yn ceisio canfod pam nad yw disgyblion yn cydymffurfio â'r polisi. Os mai'r rheswm dros hynny yw am fod teuluoedd yn wynebu anawsterau ariannol, dylai ysgolion ganiatáu cyfnod penodol o amser iddynt brynu'r eitemau gofynnol a chynnig gwybodaeth am unrhyw gymorth y gall yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol ei gynnig. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am gyllid grant Llywodraeth Cymru, fel cymorth i gael gwisg ysgol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, ynghyd â'r meini prawf cymhwyso.

4.8 Efallai fod rhesymau eraill pam nad yw disgybl yn cydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion, ar wahân i drafferthion ariannol neu awydd i herio'r drefn. Er enghraifft, efallai fod disgybl wedi colli ei wisg ysgol, ei bod wedi cael ei dwyn neu ei difrodi, neu ei bod wedi'i baeddu'n ddamweiniol i'r graddau na ellir ei gwisgo, ac efallai nad yw'n bosibl golchi a sychu rhai eitemau o ddillad dros nos. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i benaethiaid anfon plant adref o dan amgylchiadau o'r fath. Gallai rhesymau eraill gynnwys nad yw'r wisg ysgol ar gael ym maint y disgybl, neu gallai fod rhesymau crefyddol na chawsant eu nodi'n flaenorol.

4.9 Gall penaethiaid ofyn i ddisgyblion fynd adref i newid eu dillad os yw hynny'n briodol. Ni ddylai hyn gymryd mwy o amser nag sydd ei angen arnynt i newid eu dillad a dim ond lle y gellid gwneud hynny'n gyflym ac yn ddidrafferth y byddai hyn yn briodol. Ni ddylai penaethiaid anfon disgybl adref am gyfnod amhenodol neu am gyfnod hwy nag sydd ei angen arno i newid ei ddillad neu ei edrychiad (e.e. drwy dorri ei wallt), oherwydd gallai hyn gael ei ystyried yn waharddiad answyddogol. Dylid defnyddio'r mesur hwn mewn ffordd gymesur. Pan fydd penaethiaid neu uwch-aelodau o'r staff yn anfon disgybl adref, dylent ystyried oedran y plentyn ac i ba raddau y mae'n agored i niwed, a dylent gysylltu â'r rhieni neu ofalwyr. Byddai disgwyl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl newid ei ddillad. Gallai peidio â gwneud hynny gael ei ystyried yn absenoldeb heb awdurdod.

## Gwahardd ac absenoldeb

4.10 Dim ond pan fydd disgybl yn torri polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yr ysgol yn barhaus ac mewn ymgais agored i herio'r drefn, a lle yr ystyriwyd pob ffordd bosibl arall o ddatrys yr anghydfod ynghylch gwisg ysgol, y gall yr ysgol ystyried gwahardd fel dewis olaf.

4.11 Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau nad yw absenoldeb yn digwydd oherwydd analluedd teuluoedd i ddarparu gwisg ysgol i'w plant. Os bydd hynny'n digwydd, dylai'r Awdurdod Lleol neu'r ysgol roi gwybodaeth a chymorth priodol arall i'r teuluoedd.

4.12 Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gwahardd, o dan amgylchiadau arferol, yn ymateb priodol i achosion o dorri polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

# Adran 5: Cymorth ariannol

## Grant Datblygu Ysgolion – Mynediad

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni yn wynebu caledi ariannol oherwydd cost prynu gwisg ysgol i'w plant. Cred Llywodraeth Cymru hefyd na ddylai'r cymorth ariannol y mae rhieni yn ei gael tuag at gost gwisg ysgol fod yn rhwystr i ddysgu.

5.2 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa newydd yn lle'r Grant Gwisg Ysgol blaenorol, sef y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, sy'n elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion: https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

5.3 Mae'r grant newydd yn canolbwyntio ar y pwynt mynediad i addysg a'r broses o bontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n dechrau:

- Dosbarth derbyn mewn ysgolion cynradd a gynhelir;
- Blwyddyn 3 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir;
- Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir;
- Blwyddyn 10 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir; neu
- ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sydd rhwng 4 ac 11 pan fyddant yn dechrau.

Mae'r cyllid hefyd ar gael i blant sy'n derbyn gofal o oedran ysgol gorfodol.

5.4 Mae gwerth hyd at £125 o gyllid ar gael i bob dysgwr cymwys, ac eithrio'r rhai hynny ym Mlwyddyn 7. Bydd dysgwyr cymwys ym Mlwyddyn 7 yn gymwys i gael hyd at £200.

5.5 Mae disgyblion sy'n Geiswyr Lloches sy'n dechrau dosbarth derbyn; Blwyddyn 3; Blwyddyn 7; a Blwyddyn 10 yn gymwys i gael y cyllid hwn os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

5.6 Yn ychwanegol at wisg ysgol, gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i brynu gwisg addysg gorfforol; gwisg ar gyfer gweithgareddau ehangach y tu allan i'r diwrnod ysgol (fel chwaraeon, sgowtiaid a geidiaid; cyfarpar chwaraeon pan fydd gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau (fel dylunio a thechnoleg); a chyfarpar ar gyfer teithiau y tu allan i oriau'r ysgol (fel dillad glaw ar gyfer dysgu yn yr awyr agored).

5.7 Gweinyddir y cynllun grant gan Awdurdodau Lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Dylai ysgolion ddarparu gwybodaeth i rieni am y Grant Datblygu Disgyblion –Mynediad a'u cynghori y dylai ceisiadau am y grant hwn gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol.

## Cymorth grant Awdurdodau Lleol

5.8 Mae adran 518 o Ddeddf Addysg 1996, a Rheoliadau'r Awdurdod Addysg Lleol (Talu Treuliau Ysgolion) 1999 a wnaed o dan yr adran honno, yn rhoi pwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol wneud taliadau i leddfu caledi ariannol er mwyn galluogi disgybl i fanteisio ar unrhyw weithgaredd addysgol neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn yr ysgol. Byddai hynny'n cynnwys cymorth ariannol i dalu cost dillad ysgol lle maent yn fodlon y dylai taliad gael ei wneud i atal neu leddfu caledi ariannol, ond rhaid i gymorth ariannol o’r fath fod yn gysylltiedig â modd y rhieni.

5.9 Mae rhai Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn cynnig cymorth ariannol tuag at gost gwisg ysgol.

## Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol fel rhieni corfforaethol

5.10 Wrth gyflawni eu rôl fel rhieni corfforaethol, disgwylir i Awdurdodau Lleol roi blaenoriaeth i addysg plant sy'n derbyn gofal a gweithredu fel eiriolwyr ar eu rhan yn yr un modd ag y mae rhieni'n eirioli dros eu plant eu hunain. Felly, dylai Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i sicrhau y gall y plentyn neu'r person ifanc gydymffurfio â'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ac nad yw o dan anfantais.

## Mathau eraill o gymorth ar gyfer teuluoedd incwm isel

5.11 Mae rhai ffynonellau cyfyngedig posibl eraill o gymorth ariannol ar gael:

- Mae'n bosibl y gall rhieni sy'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn neu dâl ar gyfrif o un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn am o leiaf 26 wythnos, wneud cais am fenthyciad cyllidebu'r gronfa gymdeithasol o dan y categori dillad ac esgidiau gan y Ganolfan Byd Gwaith. Gall hawlwyr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd wneud cais am Flaenswm Cyllidebu.
- Mae'n bosibl y bydd cymorth ar gael gan gyrff llywodraethu neu gymdeithasau rhieni ysgolion. Gall hyn fod ar ffurf cymorth ariannol o gronfa caledi, cynllun cynilo neu drwy roi dillad ail-law.

## Undebau Credyd

5.12 Cwmnïau ariannol cydweithredol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yw Undebau Credyd. Cânt eu rhedeg gan bobl leol er budd y bobl leol, ac maent yn cynnig cyfrifon cynilo a benthyciadau moesegol.

5.13 Gall pawb sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr Undeb Credyd ymuno, yn ogystal ag unrhyw aelod o'u teulu sy'n byw gyda nhw. Mae Undebau Credyd hefyd yn croesawu aelodau iau i gynilo gyda nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pobl o bob oed i ymuno ag Undebau Credyd ac yn annog ysgolion i sefydlu mannau casglu i gynilwyr ifanc a'u teuluoedd.

5.14 Mae Undebau Credyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys benthyciadau fforddiadwy a chyfrifon cynilo, a gallant hefyd roi cyngor ar gyllidebu a rheoli a dyledion. Yn bwysig ddigon, maent yn cynnig benthyciadau llai ar gyfradd fforddiadwy. Drwy berthyn i Undeb Credyd gall rhieni gynilo ychydig yn rheolaidd tuag at gost prynu gwisg ysgol, neu wneud cais am fenthyciad bach a fydd yn eu galluogi i rannu cost prynu gwisg ysgol yn daliadau llai ar hyd y flwyddyn.

## Arferion da gan ysgolion

5.15 Dyma enghreifftiau o arfer da gan ysgolion mewn perthynas â chymorth ariannol tuag at gost prynu gwisg ysgol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i gymorth gwisg ysgol Llywodraeth Cymru a chymorth arall drwy'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau grant dewisol Awdurdodau Lleol lle y bo'n berthnasol.
- Cronfeydd caledi dewisol ysgolion.
- Hyrwyddo ac annog yr arfer o drefnu stondinau i werthu gwisg ysgol ail-law o ansawdd da mewn nosweithiau rhieni neu ddigwyddiadau eraill.
- Rhoi benthyg eitemau ail-law i ddisgyblion a chreu ystafell adnoddau mewn man nad yw'n rhy amlwg lle y gall disgyblion gael gafael ar yr eitemau hyn heb deimlo stigma.
- Swmpbrynu eitemau i'w gwerthu i rieni am bris gostyngol, o bosibl ar y cyd â chynllun taliadau hawdd.
- Os mai dim ond am ran o'r flwyddyn ysgol y bydd angen eitem o wisg addysg gorfforol, nodi hyn yn y rhestr o wisg addysg gorfforol er mwyn sicrhau na fydd y plentyn yn tyfu allan o'r eitem cyn y bydd ei hangen arno ac fel y gall rhieni gyllidebu ar ei chyfer drwy ledaenu'r gost.

- Mae gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych gynllun ailddefnyddio gwisg ysgol sy'n galluogi rhieni i gael gafael ar wisg ysgol fforddiadwy o ansawdd uchel yn eu cymuned. Caiff gwisgoedd ysgol a roddir i'r cynllun eu casglu o ysgolion cyn diwedd tymor yr haf fel y gellir eu hailddefnyddio a'u cynnig i deuluoedd eraill am ddim neu am rodd mewn siop ailgylchu (mae rhoddion yn helpu i dalu cost golchi'r wisg ysgol).